# Gwasanaethau Cymdeithasol

## Codi Tâl am Wasanaethau Gofal yn y Gymuned - Taflen Wybodaeth



Ebrill 2026

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

# CODI TÂL AM WASANAETHAU GOFAL YN Y GYMUNED - TAFLEN WYBODAETH

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| YN YMWNEUD Â | Polisi Codi Tâl |
| RHIF CYFEIRNOD | LL01 |
| ADRAN | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion |
| AWDUR | Sally Swarbrick |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF | Ebrill 2026 |
| DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF | Ebrill 2027 |

# Cynnwys

CODI TÂL AM WASANAETHAU GOFAL YN Y GYMUNED ........ 4
PA WASANAETHAU MAE ANGEN TALU AMDANYNT? ........ 4
SUT RYDYN NI'N CYFRIFO FAINT MAE'N RHAID I RYWUN EI DALU ........ 5
Beth os nad ydw i eisiau neu os ydw i'n methu â rhoi gwybodaeth i chi am fy sefyllfa ariannol? ........ 5
Incwm wythnosol ........ 6
Cyfalaf ........ 6
Beth sy'n digwydd os bydd fy nghynilion a/neu fy nghyfalaf yn disgyn o dan £24,000.00? . 6
Y rheolau am gyfalaf ac incwm i barau ........ 7
Incwm a beth sy'n cael ei ddiystyru ........ 7
Incwm fydd yn cael ei ddiystyru yn eich asesiad ........ 7
FFIOEDD O FIS EBRILL 2025 TAN FIS MAWRTH 2026 ........ 9
YMHOLIADAU A HERIO CANLYNIAD YR ASESIAD ........ 10
SUT MAE POSIB' TALU'R FFIOEDD? ........ 11
GOFAL SEIBIANT A THYMOR BYR ........ 12
HAWLIO BUDD-DALIADAU I HELPU I DALU FFIOEDD ........ 13
BETH SY'N DIGWYDD I'R WYBODAETH ARIANNOL A PHERSONOL SY'N CAEL EI RHOI? ........ 13
CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL ........ 14
CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU ........ 15

## CODI TÂL AM WASANAETHAU GOFAL YN Y GYMUNED

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth am godi tâl am wasanaethau mae pobl yn eu derbyn yn eu cartref eu hunain ac yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau fel gofal dydd, gofal cartref, gwaith prosiect ac aros i gael gofal am gyfnodau byr o lai nag wyth wythnos mewn cartref preswyl neu nyrsio.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn eich gwahodd chi i gael asesiad ariannol llawn o'ch gallu i dalu am y gwasanaethau y byddwch chi'n eu derbyn ac i weld a ydych chi'n gymwys i gael cymorth gan y Cyngor.

**Rhaid i chi beidio â rhoi unrhyw adnoddau ariannol fel arian neu eiddo i eraill na cheisio cael gwared ag unrhyw asedau er mwyn lleihau eich gallu i dalu ffioedd Cyngor Sir y Fflint. Os gwnewch chi, fe allai Cyngor Sir y Fflint gyfrif bod yr asedau hynny'n dal i berthyn i chi. Os ydych chi mewn unrhyw amheuaeth am eich sefyllfa, dylech gael cyngor cyfreithiol.**

## PA WASANAETHAU MAE ANGEN TALU AMDANYNT?

- Gofal cartref
- Gwasanaethau gofal dydd
- Gwaith prosiect neu waith cefnogi
- Gofal nos
- Cynlluniau byw yn y gymuned
- Taliadau uniongyrchol a chyllidebau personol
- Gofal byrdymor wrth aros am lai nag wyth wythnos
- Arhosiad gofal dros dro o dros wyth wythnos – sylwch y bydd rheolau codi tâl preswyl yn berthnasol

Efallai y bydd gofyn i chi hefyd dalu am Wasanaethau Teleofal ond nid yw'r gwasanaeth hwn yn cael ei gynnwys yn ein Polisi Codi Tâl ar hyn o bryd.

Mae prydau mewn canolfannau dydd yn cael eu cyfrif yn gostau byw bob dydd ac nid ydynt yn cael eu heffeithio gan yr asesiad ariannol. Yn hytrach, maent yn cael eu prisio ar gyfradd safonol.

**Nid ydym yn codi tâl ar:**

- Unigolyn sy'n iau na 18 oed
- Oedolyn sy'n dod o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Oedolion sydd wedi cael diagnosis o glefyd Creutzfeldt-Jakob
- Oedolion sydd wedi cael iawndal am effaith y cyffur Thalidomide

Nid oes rhaid talu am Wasanaethau Ailalluogi am hyd at chwe wythnos.

## SUT RYDYN NI'N CYFRIFO FAINT MAE'N RHAID I RYWUN EI DALU

Os ydych chi'n cael gwasanaethau gofal yn y gymuned wedi'u trefnu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, bydd cost y rhain yn seiliedig ar eich incwm wythnosol, faint o gynilion ac adnoddau ariannol sydd gennych chi a faint o oriau o ofal rydych chi'n eu derbyn bob wythnos.

I sicrhau bod y tâl rydyn ni'n ei godi am ofal yn y gymuned yn deg, mae Polisi Codi Tâl Sir y Fflint yn seiliedig ar ganllawiau a rheoliadau gan Lywodraeth Cymru, sy'n gosod uchafswm tâl wythnosol o £100.00 ar hyn o bryd.

Mae'r Polisi Codi Tâl yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a fyddwch chi'n talu:

- **Y tâl llawn am eich gofal.** Mae hyn yn cael ei gyfrifo yn ôl faint o ofal rydych chi'n ei gael, ond ni fydd yn fwy na £100.00 yr wythnos.
- **Rhan o gost eich gofal.** Bydd yr union swm yn dibynnu ar faint o arian sydd gennych chi bob wythnos ar ôl talu costau penodol a faint o ofal rydych chi'n ei gael, ond ni fydd yn fwy na £100.00 yr wythnos.
- **Dim tuag at gost eich gofal.**

Bydd Swyddog Budd-daliadau Lles o Gyngor Sir y Fflint yn trefnu i ddod atoch i gwblhau Ffurflen Hawlio Cymorth Ariannol i helpu'r Swyddog Asesiadau Ariannol i gyfrifo faint allwch chi fforddio ei dalu tuag at eich gwasanaethau. Fe fyddwn ni angen y wybodaeth hon cyn gynted â phosib', neu fel arall, fe allech chi orfod talu'r swm llawn (£100.00 yr wythnos ar hyn o bryd) am eich gwasanaeth. Gallwch ofyn i aelod o'r teulu, ffrind neu rywun rydych chi'n ymddiried ynddynt i fod yno i'ch cefnogi gyda'r Swyddog.

Os nad yw'r wybodaeth gywir gennych chi pan mae'r Swyddog Budd-daliadau Lles yn dod heibio, fe gewch chi fanylion ysgrifenedig am ba wybodaeth arall sydd ei hangen. Mae gennych chi uchafswm o 14 diwrnod gwaith i ddarparu'r wybodaeth arall yma. Cofiwch roi gwybod i ni os byddwch chi'n cael trafferth darparu'r wybodaeth, neu fe allem ni gymryd eich bod chi'n dymuno talu'r uchafswm o £100.00 yr wythnos.

### Beth os nad ydw i eisiau neu os ydw i'n methu â rhoi gwybodaeth i chi am fy sefyllfa ariannol?

Os byddwch chi'n dewis peidio â dweud wrthym ni am eich amgylchiadau ariannol, bydd gofyn i chi gwblhau ffurflen ddatgan talu'r uchafswm a fydd yn golygu y byddwch yn gorfod talu hyd at uchafswm cost wythnosol eich gwasanaethau heb i asesiad ariannol gael ei gwblhau. Os na fyddwch chi'n darparu'r wybodaeth rydyn ni ei hangen er mwyn cwblhau'r asesiad ariannol, bydd gofyn i chi dalu uchafswm cost wythnosol eich gofal o'r diwrnod mae'ch gofal yn dechrau. Ar hyn o bryd, mae hynny'n golygu hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos.

## Incwm wythnosol

Mae cyfanswm eich incwm wythnosol yn cynnwys:

- Eich holl fudd-daliadau a phensiynau gwladol
- Eich holl bensiynau galwedigaethol
- Taliadau o ffynonellau eraill, fel taliadau gan bobl eraill e.e. incwm rhent
- Nid ydym yn cyfrif arian rydych chi neu eich partner yn ei ennill fel cyflog

## Cyfalaf

Mae cyfalaf yn cynnwys cynilion, buddsoddiadau, eiddo a thir (ar wahân i gartref yr unigolyn). Nid ydym yn cyfrif gwerth y tŷ rydych chi'n byw ynddo. Bydd y Tîm Asesiadau Ariannol yn cyfrif faint o gyfalaf sydd gennych chi gan ddefnyddio canllawiau'r llywodraeth. Dylech gysylltu â'r Tîm i drafod eich cyfalaf os nad yw'n cael ei gadw mewn banc, cymdeithas adeiladu neu gyfrif y Swyddfa Bost, gan fod rhai mathau o asedau'n cael eu trin fel incwm ac nid fel cyfalaf.

| | |
|---|---|
| **O dan £24,000.00** | os bydd cyfalaf rhywun yn is na hyn, mae'n cael ei anwybyddu |
| **Dros £24,000.00** | bydd rhywun sydd â mwy na hyn o gyfalaf yn gorfod talu am wasanaethau hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos, beth bynnag yw eu hincwm. |

## Beth sy'n digwydd os bydd fy nghynilion a/neu fy nghyfalaf yn disgyn o dan £24,000.00?

Os bydd eich cyfalaf/cynilion yn disgyn o dan £24,000.00 ar unrhyw adeg tra byddwch chi'n derbyn gwasanaethau, cysylltwch â'ch Swyddog Asesiadau Ariannol. Gall y Swyddog wedyn drefnu i Ffurflen Hawlio Cymorth Ariannol gael ei chwblhau. Mae'r manylion cyswllt yn adran 4 ar y daflen hon. Os na fyddwch chi'n gwneud hyn mewn da bryd, fe fydd uchafswm y gost wythnosol yn dal i gael ei godi arnoch chi ac ni fyddwn yn edrych yn ôl yn eich asesiad i leihau taliadau rydych chi wedi'u gwneud yn barod.

## Cael gwared â Asedau

Gall Awdurdod Lleol ystyried bod unigolion wedi cael gwared â'u hasedau er mwyn lleihau'r gost i'w thalu. Mae cael gwared ag asedau'n golygu bod rhywun wedi lleihau neu gael gwared â'u hasedau yn fwriadol, sy'n arwain at leihau neu dynnu unrhyw gost am eu gofal a'u cymorth. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid iddynt fod wedi penderfynu gwneud hyn gan wybod y byddai'n effeithio ar faint maent y gorfod ei dalu.

Byddai'r canlynol yn cael eu hystyried yn achosion o gael gwared ag asedau:

- Taliad lwmp-swm i rywun arall, er enghraifft, fel anrheg
- Gwariant sylweddol fwyaf sydyn ac yn anghydnaws â'u gwariant blaenorol
- Trosglwyddo gweithredoedd eiddo i unigolyn arall

- Asedau wedi'u rhoi mewn ymddiriedolaeth a dim modd eu tynnu allan
- Lleihau asedau trwy fyw'n tu hwnt o foethus, er enghraifft, prynu sbortscar drud

Ni wnawn ni roi cymorth ariannol i unrhyw un sydd, yn ein barn ni, wedi cael gwared â chyfalaf/cynilion yn fwriadol fel eu bod dan y trothwy o £24,000.00. Bydd gofyn iddynt dalu am gostau llawn eu gwasanaethau, hyd at uchafswm o £100.00 yr wythnos.

## Y rheolau am gyfalaf ac incwm i barau

Os ydych chi'n un o bâr, fe fyddwn ni'n ystyried 50% o'r cyfalaf sy'n eiddo i'r ddau ohonoch chi am bob unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth.

Fe fyddwn ni'n ystyried 100% o'r incwm sydd yn eich enw chi oni bai eich bod yn derbyn budd-dal i'w ddefnyddio ar y cyd, fel Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Pensiwn, lle byddwn ni'n ystyried 50% ohono wrth gwblhau'r asesiad ariannol.

## Incwm a beth sy'n cael ei ddiystyru

Rydyn ni'n diystyru rhai symiau penodol o'ch asesiad ariannol er mwyn:

- Sicrhau nad ydi'ch incwm net yn gostwng, ar ôl codi tâl, yn is na lefelau sylfaenol Cymhorthdal Incwm neu Gredyd Gwarant Pensiwn, gyda 35% o'r gyfradd honno yn ychwanegol.
- Sicrhau bod 10% ychwanegol o incwm pob defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael asesiad ariannol yn cael ei anwybyddu, fel cyfraniad tuag at eu gwariant ar gyfer eu hanabledd.
- Sicrhau nad oes unrhyw un yn gorfod talu mwy na £100.00 yr wythnos.

## Incwm fydd yn cael ei ddiystyru yn eich asesiad

Pan fyddwn ni wedi cyfrifo cyfanswm eich incwm wythnosol, bydd symiau penodol wedyn yn cael eu diystyru. Y rhain yw:

- Eich enillion chi a'ch partner a'r credyd treth gwaith cysylltiedig
- Elfen symudedd unrhyw Lwfans Byw i'r Anabl neu Daliad Annibyniaeth Bersonol
- Budd-dal tai (ad-daliad rhent) neu fudd-dal treth y cyngor
- Unrhyw forgais, rhent neu dreth y cyngor gan dynnu unrhyw fudd-dal
- £10.00 o unrhyw bensiwn rhyfel neu bensiwn gweddwon rhyfel
- £5.75 o unrhyw elfen credyd cynilion o'ch credyd pensiwn
- Mae Pensiwn Anabledd Rhyfel yn cael ei ddiystyru'n llwyr

Pan fyddwn ni wedi diystyru unrhyw rai o'r rhain sy'n berthnasol o gyfanswm eich incwm wythnosol, mae'r swm sydd ar ôl yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo faint y dylech chi dalu am eich gwasanaethau.

Er enghraifft:

| Enghraifft | |
|---|---|
| Incwm | |
| Pensiwn y Wladwriaeth (Lwfans Personol a Phremiwm Pensiynwr) | £238.00 |
| Pensiwn Galwedigaethol | £94.60 |
| Lwfans Presenoldeb | £114.60 |
| **Cyfanswm Incwm** | **£447.20** |
| | |
| I'w diystyru | |
| Pensiwn y Wladwriaeth (Lwfans Personol a Phremiwm Pensiynwr) | £238.00 |
| Diystyru Sir y Fflint | £107.10 |
| **Cyfanswm y Diystyriaethau** | **£345.10** |
| | |
| **Cyfraniad Wythnosol wedi'i Asesu** | **£102.10** |
| **(Cap Uchafswm Tâl Wythnosol)** | **(£100.00)** |
| **Felly, y tâl wythnosol uchafswm yw:** | **£100.00** |

Bydd eich Swyddog Asesiadau Ariannol yn ysgrifennu atoch chi i gadarnhau canlyniad eich asesiad ariannol.

## FFIOEDD O FIS EBRILL 2026 TAN FIS MAWRTH 2027

| **Tabl Ffioedd Dibreswyl 2026/27** | |
|---|---|
| Math o Wasanaeth | Cyfradd |
| Gofal Cartref | Yr awr - £26.74<br>¾ awr - £22.26<br>½ awr - £17.75 |
| Cyfradd Gofal Dydd - Pobl Hŷn<br>Gofal Dydd - Anableddau Dysgu / Anableddau Corfforol | £57.47<br>£70.72 |
| Prydau bwyd yn y Ganolfan Ddydd | £12.00 |

Byddwch yn talu'r prisiau uchod nes byddwch wedi cyrraedd cyfanswm eich cost wythnosol wedi'i hasesu. Bydd yr Awdurdod Lleol yn talu cost unrhyw ofal sy'n fwy nag uchafswm eich cyfraniad wythnosol fel sydd wedi'i gytuno yn eich cynllun gofal a chymorth.

Er enghraifft, os ydych chi wedi cael eich asesu i fod angen 7 awr o ofal cartref yr wythnos ac mai uchafswm eich cyfraniad wythnosol wedi'i asesu ydi £100.00, cyfanswm cost y pecyn gofal ydi 7 awr x £26.74 = £187.18, felly fe fyddwch chi'n talu'r cyfraniad sydd wedi'i asesu, sef £100.00 a bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn talu £87.18.

| Nifer yr oriau o ofal | Cyfanswm cost y pecyn gofal | Y gost i'r unigolyn | Cyfraniad y Gwasanaethau Cymdeithasol tuag at y pecyn gofal |
|---|---|---|---|
| 1 | £26.74 | £26.74 | £0.00 |
| 2 | £53.48 | £53.48 | £0.00 |
| 3 | £80.22 | £80.22 | £0.00 |
| 4 | £106.96 | £100.00 | £6.96 |
| 5 | £133.70 | £100.00 | £33.70 |
| 6 | £160.44 | £100.00 | £60.44 |
| 7 | £187.18 | £100.00 | £87.18 |

## YMHOLIADAU A HERIO CANLYNIAD YR ASESIAD

Os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau neu eich bod yn anhapus â chanlyniad yr asesiad ariannol ar unrhyw adeg arall, cysylltwch â'r Swyddog Asesiadau Ariannol yn gyntaf. Bydd eu manylion cyswllt ar y llythyr oedd yn dweud canlyniad yr asesiad.

**Neu** Gallwch ofyn i Arweinydd y Tîm adolygu eich asesiad ariannol.

**Neu** Os ydych chi'n teimlo nad ydych chi'n gallu fforddio'r ffi sydd wedi'i hasesu, fe fydd y Swyddog Asesiadau Ariannol yn egluro sut mae ymgeisio i gael ildiad rhag gorfod talu. Gallwch hefyd gael copi o'ch Polisi Codi Tâl.

Bydd ceisiadau am ildiad rhag talu'n cael eu hystyried gan Banel. Gall y Panel argymell bod eich ffi neu eich cyfraniad yn cael ei ildio mewn amgylchiadau eithriadol neu gyfnod o galedi ariannol. Os bydd ildiad, bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn i weld a ydych chi'n dal i fod ei angen oherwydd eich amgylchiadau.

Gallwch ddewis peidio â thalu eich ffi neu eich cyfraniad tra mae'r cais am ildiad yn cael ei ystyried, ond mae'n rhaid i chi ddweud wrthyn ni am hynny. Ond rhaid i chi fod yn ymwybodol o hyn – os byddwch chi'n dewis peidio â thalu ac nad ydych chi'n cael yr ildiad, bydd y Cyngor yn gofyn i chi dalu'r symiau sydd heb eu talu.

Gallwch ofyn am adolygiad unrhyw bryd ar ôl i ni ysgrifennu atoch chi'n cadarnhau canlyniad eich asesiad ariannol. Mae'n rhaid i chi ddweud wrth y Cyngor pan ydych chi eisiau iddo edrych ar y penderfyniad eto. Gallwch wneud hyn un ai trwy siarad efo'ch Swyddog Asesiadau Ariannol neu ysgrifennu ato/ati.

Mae'n bwysig i chi roi gwybod i'ch Swyddog Asesiadau Ariannol am unrhyw newidiadau i'ch incwm neu eich amgylchiadau gan y gallai hyn effeithio ar eich cyfraniad wythnosol.

Y Tîm Asesiadau Ariannol a Chodi Tâl
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tŷ Dewi Sant,
Parc Dewi Sant,
Ewloe,
Sir y Fflint CH5 3FF
Rhif ffôn: 01352 701318

Mae pob asesiad ariannol yn cael eu hailasesu pob mis Ebrill yn unol â'r cynnydd blynyddol i fudd-daliadau. Nid oes angen i chi gysylltu â ni ar yr adeg honno. Pan fydd eich ailasesiad wedi'i gwblhau, fe wnawn ni ysgrifennu atoch chi yn cadarnhau eich cyfraniad wythnosol newydd sydd wedi'i asesu a'r dyddiad y bydd y newid yn cael ei gyflwyno.

## SUT MAE POSIB' TALU'R FFIOEDD?

Bydd anfonebau sy'n rhestru'r gwasanaethau sydd wedi'u darparu, costau'r rheiny a'r cyfanswm i'w dalu'n cael eu hanfon atoch chi bob mis. Bydd y rhain bob amser i'w talu am y mis blaenorol – er enghraifft, bydd yr anfoneb am wasanaethau a gawsoch chi ym mis Medi'n cael ei hanfon atoch ym mis Hydref.

Gallwch dalu:

- Dros y ffôn (gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd). Cofiwch – i wneud taliad dros y ffôn, mae'n rhaid i berchennog y cerdyn fod yno
- Trwy archeb sefydlog
- Gwefan Cyngor Sir y Fflint: www.siryfflint.gov.uk
- Swyddfeydd Sir y Fflint yn Cysylltu
- Trosglwyddiad banc o'ch cyfrif ein hun, ar-lein, trwy fancio dros y ffôn neu mewn cangen

Mae Sir y Fflint yn disgwyl i anfonebau gael eu talu'n llawn ar ôl gwneud asesiad ariannol neu os ydych chi'n dewis talu'r uchafswm o £100.00 yr wythnos. Bydd angen talu o fewn 28 diwrnod i ddyddiad yr anfoneb. Os ydych chi'n cael trafferth talu, dylech gysylltu â'ch Swyddog Asesiadau Ariannol neu siarad â'ch Cydlynydd Gofal neu Weithiwr Cymdeithasol.

Byddwn yn edrych ar unrhyw anfoneb sydd heb ei thalu ac yn anfon nodyn atgoffa. Bydd parhau i fethu â thalu anfonebau'n arwain at gamau gan y Cyngor i hawlio'r ddyled.

## GOFAL SEIBIANT A THYMOR BYR

Pan fydd angen trefnu i rywun aros mewn cartref gofal i gael gofal tymor byr fel pan mae argyfwng neu i gael gofal seibiant, canllawiau Llywodraeth Cymru ydi bod y ffioedd yr un fath â phe baech chi'n byw gartref.

Bydd gofal preswyl neu nyrsio tymor byr am gyfnod o hyd at 8 wythnos yn cael ei asesu dan y polisi ar gyfer Gwasanaethau Gofal yn y Gymuned. Os yw lleoliad Gofal Cyfnod Byr yn fwy na wyth wythnos, dylid ei drin fel Lleoliad Dros Dro a bydd yn cael ei asesu o dan y polisi codi tâl ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio. Os gwyddir fod lleoliad yn un dros dro (os oes ganddo ddyddiad terfyn disgwyliedig ai peidio) bydd yn cael ei asesu o dan y polisi codi tâl ar gyfer Gofal Preswyl a Nyrsio o'r dyddiad derbyn.

Efallai y bydd rhai cartrefi gofal â ffioedd wythnosol sy'n uwch na'r rhai mae'r Awdurdod Lleol wedi cytuno arnynt. Bydd y gwahaniaeth rhwng y costau'n cael eu codi gan y cartref gofal fel 'ffi ychwanegol'. Er enghraifft, y ffi wythnosol sydd wedi'i gosod gan y Cyngor ydi £804.04 ac rydych chi'n dewis cartref gofal sy'n costio £850.00 yr wythnos. Gan fod eich cartref gofal dewisol chi'n costio mwy na'r gost sydd wedi'i gosod gan y Cyngor, bydd angen taliad ychwanegol o £45.96. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfraniad wythnosol sydd wedi'i asesu ar eich cyfer ac mae'n aml yn cael ei dalu gan aelod o'r teulu, fodd bynnag, gallwch dalu eich hun os oes gennych ddigon o gynilion. Trafodwch y taliadau ychwanegol gyda chartrefi gofal a chofiwch am hyn wrth benderfynu. Dylai'r trydydd parti gael cyngor cyfreithiol er mwyn deall yn iawn beth yw goblygiadau cytuno i dalu'r taliad ychwanegol.

Mewn rhai achosion, bydd posib' cael Cyllid Gofal Canolradd i dalu am arosiadau gofal tymor byr, sy'n golygu na fyddai angen i chi dalu am hyd at chwe wythnos. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn trafod ac yn cadarnhau hyn gyda chi wrth drefnu'r gwasanaeth.

## HAWLIO BUDD-DALIADAU I HELPU I DALU FFIOEDD

Er bod y ffioedd wedi'u cadw mor isel â phosib', rydyn ni'n deall y gallai gorfod talu am wasanaethau beri pryder mawr i chi.

Mae eich gallu i dalu'n cael ei ystyried wrth gyfrifo faint fydd yn rhaid i chi ei dalu tuag at gostau'r gwasanaethau rydych chi'n eu derbyn.

Mae ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir y Fflint y dylai unrhyw un sydd angen gwasanaethau gael help i hawlio'r holl fudd-daliadau nawdd cymdeithasol a phensiynau mae ganddynt hawl iddynt. Mae hyn yn cynnwys budd-daliadau na fyddech chi efallai yn eu cael yn flaenorol.

Gall Swyddog Budd-daliadau Lles helpu gyda'r broses hon a delio gyda'r holl faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau. Gallant gynnig cyngor a'ch helpu i wneud hawliadau am unrhyw fudd-daliadau mae gennych chi hawl iddynt ac nad ydych chi'n eu hawlio ar hyn o bryd. Nid oes angen talu am y gwasanaeth hwn ac mae ar gael i bawb sy'n cael gwasanaeth mae angen talu amdano, boed yr unigolyn hwnnw'n gorfod talu am y gwasanaethau ai peidio.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd pobl mewn gwell lle ar ôl hawlio budd-daliadau ychwanegol, hyd yn oed os bydd rhywfaint o'r incwm uwch hwnnw'n mynd tuag at ofal.

## BETH SY'N DIGWYDD I'R WYBODAETH ARIANNOL A PHERSONOL SY'N CAEL EI RHOI?

Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn delio â'r holl wybodaeth yn gyfrinachol a bydd eich manylion yn cael eu cadw'n ddiogel yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Mae gennych hawl i weld y cofnodion personol sydd gennym amdanoch chi. Efallai y bydd yn rhaid talu ffi weinyddol. Cysylltwch â ni i gael mwy o wybodaeth.

## CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Mae ystod eang o sefydliadau gwirfoddol yn darparu cyngor a chymorth annibynnol. Gallwch gysylltu â nhw i gael gwybod am eich hawliau.

| | |
|---|---|
| **Canolfan Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint** | |
| 08444 772020 | www.flintshirecab.org.uk |
| **Gofal a Thrwsio Sir y Fflint**<br>Mae Gofal a Thrwsio Sir y Fflint yn rhoi cyngor ar atgyweiriadau tai, addasiadau a budd-daliadau ar gyfer pobl anabl a'r henoed. | |
| 01352 758700 | www.flintshirecr.co.uk |
| **Age Connects Gogledd-ddwyrain Cymru** | |
| 08450 549969 | www.acnew.org.uk |
| **Llinell Gymorth Mencap Cymru** | |
| 0808 808 1111 | www.mencap.org.uk/wales |
| **MIND** | |
| 01352 757637 | www.flintshiremind.org.uk |
| **Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWCIS)** | |
| 01352 752525 | www.carers.org/local/wales/flintshire |
| **Gwasanaethau Cymdeithasol**<br>Cyswllt Cyntaf, Preswylfa, Ffordd Hendy, yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 1PZ | |
| 03000 858 858 | SSDUTY@flintshire.gov.uk<br>www.flintshire.gov.uk/careinfo |

## CWYNION, CANMOLIAETH A SYLWADAU

Er gwaethaf ein holl ymdrechion, ar adegau, rydyn ni'n gwybod y gallech chi fod angen gwneud cwyn. Gallwch wneud unrhyw gŵyn am y gwasanaethau i'ch Gweithiwr Cymdeithasol, eu Rheolwr Tîm neu fe allwch gysylltu â'r:

Swyddog Cwynion
Gwasanaethau Cymdeithasol
Tŷ Dewi Sant,
Parc Dewi Sant,
Ewloe,
Sir y Fflint CH5 3FF

Rhif ffôn: 01352 702623

Ebost: myview@flintshire.gov.uk

Mae taflen "Eich hawl i ganmol a chwyno", sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin, ar gael o'r un cyfeiriad neu ar-lein ar: www.flintshire.gov.uk/careinfo

Mae ystod eang o wybodaeth am y system gofal a chymorth yng Nghymru ar gael ar-lein ar:

www.dewis.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for a version.

**Mae'r daflen wybodaeth hon ar gael mewn fformatau eraill gan gynnwys Braille a Phrint Bras trwy ffonio 03000 858 858.**